Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Mynediad at gyfiawnder

## Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

Mehefin 2022

## Cefndir

Fel rhan o waith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar fynediad at gyfiawnder yng Nghymru, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu, gan gynnwys cyfres o grwpiau ffocws a chyfweliadau un i un gydag ymarferwyr cyfreithiol ac ymgyfreithwyr drostynt eu hunain o bob rhan o Gymru.

Cynhaliwyd cyfres o bedwar grŵp ffocws a dau gyfweliad un i un rhwng Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022, gyda 18 o gyfranogwyr. Cafwyd cyfraniadau ychwanegol gan gyfranogwyr a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd i '*Gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru*' yn ystod hydref 2020. Mae canfyddiadau'r rhaglen ymgysylltu honno ar gael yma. At ei gilydd, rhannodd 31 o gyfranogwyr ar draws holl ranbarthau'r Senedd - mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd - eu barn am faterion yn ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru.

## Cyfranogwyr

Roedd y rhai a gymerodd ran yn amrywiol, ac yn cynnwys cyfranogwyr ag arbenigedd mewn meysydd cynhennus a/neu anghynhennus o'r gyfraith, gan gynnwys (ond nid yn benodol), cyfraith gorfforaethol a masnachol, dyled, cyflogaeth, cyfraith teulu, tai, esgeulustod meddygol, anafiadau personol, eiddo a chynllunio, cyfraith weinyddol a chyfraith gyhoeddus, trawsgludo preswyl, budd-daliadau lles ac ewyllysiau a phrofiant. Roedd gan ymgyfreithwyr drostynt eu hunain a rannodd eu barn brofiad personol o faterion tai, dyled a chyfraith teulu.

Cynrychiolwyd practisau preifat (cwmnïau bach i ganolig a chwmnïau mawr), asiantaethau cyngor trydydd sector, canolfan gyfraith ac ysgolhaig cyfreithiol yn y trafodaethau.

## Fformat

Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws ar Microsoft Teams, gyda dau gyfweliad un i un gydag ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn cael eu cynnal dros y ffôn.

Roedd fformat yr ymgysylltu yn gymaradwy i raddau helaeth rhwng sesiynau, ond gydag ychydig o amrywiaeth i ddiwallu anghenion cyfranogwyr ac i ddarparu ar gyfer absenoldebau hwyr. Cyflwynwyd y cwestiynau i'r cyfranwyr ymlaen llaw.

Daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn sgil y trafodaethau.

## Crynodeb o'r prif themâu

### Denu a chadw talent

Trafododd llawer o gyfranwyr yn y grwpiau ffocws yr heriau yn ymwneud â recriwtio a chadw staff arbenigol, a oedd yn rhannol yn deillio o effaith y pandemig ar arferion gwaith a'r angen cynhenid i addasu. Daeth y thema hon i'r amlwg yn ystod trafodaethau a oedd yn cynnwys cyfranwyr o bob rhan o'r sector cyfreithiol yng Nghymru, ac fe'i nodwyd fel rhwystr allweddol i weithrediad cyfiawnder yng Nghymru.

Roedd y pryderon hyn yn atgyfnerthu safbwyntiau a rannwyd gan gyfranogwyr yn ystod grwpiau ffocws fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd yn y Bumed Senedd – '*Gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru*'.

> *"The advance of remote working during the pandemic has meant that the choice offered to those looking for a role change has increased dramatically. We are aware that candidates, particularly junior and mid-range solicitors, are being contacted much more often by recruitment agencies, sometimes on a daily basis. Job offers now come from further afield, but predominantly London and Bristol. These options would previously have been unattractive if the candidate wanted to remain living in Wales; now, with the requirement to attend the London or Bristol firm once or twice a month, the position has changed. These roles can attract up to a 60% salary increase. The impact of this will inevitably drive up Cardiff salaries/reduce profitability, which in turn will threaten our ability to provide excellent work at a more competitive rate than London."*
>
> *Ymateb ysgrifenedig gan gyfrannwr i ymchwiliad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd i Wneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru.*

Eglurodd rhai cyfranwyr, er bod effaith y pandemig wedi golygu bod yr heriau sy’n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff wedi dod yn fwy acíwt, mae nifer o ffactorau eraill wedi cyfrannu at yr heriau hyn ers amser maith.

*"Rydyn ni wedi gweld naid fawr mewn trosiant staff yn y chwarter diwethaf, sy'n gyffredin i lawer o fusnesau. Boed yn bobl yn ail-werthuso eu gyrfaoedd neu'r cyfleoedd gwell i weithio o bell. Mae ailhyfforddi staff yn broblem, yn ogystal â recriwtio. Mae llesiant staff hefyd yn broblem, nid yn unig straen a phwysau'r pandemig, ond natur y gwaith a'r ffaith bod yna farn bod anghenion cleientiaid wedi dod yn fwy cymhleth, deng mlynedd o galedi, a'r ffaith bod gwasanaethau cyhoeddus wedi tynnu'n ôl ychydig. . . Er mai’r sector cyfreithiol yw hwn i bob pwrpas, rydym yn gwneud gwaith lles y byddai’r sector gofal yn ei wneud, ac mae rhai o’r arferion hynny sy'n ymwneud â chymorth therapiwtig yr un mor bwysig yn y sector cyngor cyfreithiol."*

*Grŵp ffocws 1*

## Effaith Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012

Trafodwyd dirywiad sylweddol darpariaeth cymorth cyfreithiol practisau preifat yn y blynyddoedd yn dilyn gweithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO o hyn ymlaen) yn fanwl yn ystod y rhan fwyaf o’r grwpiau ffocws.

Cafodd y diffyg cyngor cyfreithiol arbenigol sylfaenol ym maes cyfraith lles cymdeithasol ledled Cymru, a ddarperir gan y rhai â hyfforddiant cyfreithiol, ei briodoli’n bennaf i effaith eang LASPO ar y sector cynghori.

*"Ers LASPO, bu colled enfawr o ran capasiti ym maes cyfraith lles cymdeithasol, yn enwedig ym maes gofal yn y gymuned, sef y gwaethaf yng Nghymru gan nad oes fawr ddim darparwyr. Mae cyfraith cyflogaeth yn broblem wirioneddol, yn enwedig o gymharu â rhai blynyddoedd yn ôl. Ychydig iawn o ffynonellau cyngor rhad ac am ddim ar gyfraith cyflogaeth sydd ar gael. Mae’r un peth yn wir am fudd-daliadau lles, dyled a thai.*

*Gyda budd-daliadau lles, mae nifer o asiantaethau Cyngor ar Bopeth sy'n gallu darparu cymorth da ar gyfer hawliadau apêl safonol, ond mae nifer o feysydd mwy cymhleth lle mae’r hyfforddiant cyfreithiol yn gwneud gwahaniaeth enfawr, ac mae'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gall Cyngor ar Bopeth ei wneud yn realistig heb hynny."*

*Grŵp ffocws 2*

Esboniodd rhai cyfranwyr fod y prinder sefydliadau sy’n darparu cyngor cymorth cyfreithiol yng Nghymru yn aml yn golygu, pan fydd materion yn ymwneud â chapasiti yn codi, y bydd sefydliadau sy’n darparu cymorth cyfreithiol yn wynebu anhawster wrth atgyfeirio unigolyn at ddarparwr arall sydd â’r arbenigedd angenrheidiol. Eglurodd un cyfrannwr sydd wedi’i lleoli yng ngogledd Cymru mai ei hunig opsiwn yn aml fyddai cyfeirio pobl at ddarparwr yn Lerpwl. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol nad oedd yn ariannol hyfyw i lawer o gwmnïau practis preifat barhau â gwaith cymorth cyfreithiol.

Er bod llawer o gyfranwyr yn rhannu’r farn y bydd cleientiaid yn aml yn ceisio cyngor pan fyddant eisoes mewn argyfwng, roedd un cyfrannwr yn awyddus i bwysleisio bod rhai yn ceisio cyngor yn gynnar ond yn aml yn cael eu gadael mewn limbo os yw’r sefydliad sy’n darparu’r cyngor yn llawn.

> *“. . . mae yna nifer o rannau lle ni yw'r unig ddarparwr; gogledd Cymru yw'r un amlwg. Ond hyd yn oed yn y dinasoedd mawr, mae cwmnïau'n gweithredu ar raddfa fach iawn nawr. Mae'n anodd iawn dod o hyd i gwmni i atgyfeirio atynt er mwyn cymryd y gwaith pan fyddwn ni wedi cyrraedd ein capasiti llawn – mae'n anodd iawn dod o hyd i sefydliadau eraill i wneud gwaith cymorth cyfreithiol.”*
>
> *Grŵp ffocws 1*
>
> *“Byddem wrth ein bodd yn gwneud mwy o waith cymorth cyfreithiol. Roedd pum cyfreithiwr yn arfer bod gennym ni, nawr mae gennym ni ddau. Felly mae'r newid yn y rheolau cymhwysedd, y newid o ran cwmpas, y gofynion prawf modd, y cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol, yn ei wneud yn aneconomaidd. Byddem yn cael trafferth gweithredu pe na bai'r arian grant elusennol gennym . . . felly rydym yn deall yn iawn pam mae practis preifat wedi tynnu'n ôl. Nid yw'n faes sy'n cynhyrchu incwm o gwbl.”*
>
> *Grŵp ffocws 1*

## Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Nododd cyfranwyr bod lleoliad llysoedd yng Nghymru yn rhwystr i bobl sy’n dymuno cael mynediad at gyfiawnder. Roedd amseroedd teithio sylweddol mewn rhannau o Gymru, a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus annigonol, yn golygu bod cyrraedd gwrandawiad mewn pryd yn heriol i lawer. Eglurodd rhai cyfranwyr fod y materion hyn yn cael effaith anghymesur ar y rhai sydd ar incwm isel.

*“Os oes angen bod yng Nghaernarfon erbyn 10:00yb a'ch bod yn byw yng ngogledd Ynys Môn neu ben draw Pen Llŷn a'ch bod heb gar, mae'n anodd."*

*Grŵp ffocws 4*

*“Mae llys Wrecsam yn gwasanaethu Sir y Fflint, Wrecsam a gogledd Powys, felly i rywun sydd ychydig i'r gogledd o Landrindod sydd â gwrandawiad meddiant, byddai'n rhaid iddynt fynd i Wrecsam. Os ydyn nhw ymhellach i'r de na Llandrindod mae'n rhaid iddyn nhw fynd i Ferthyr Tudful, ac mae hynny'n daith a hanner, nid yn unig o ran cost, ond o ran amser."*

*Grŵp ffocws 1*

Roedd un cyfranogwr hefyd yn awyddus i bwysleisio’r heriau sy’n gysylltiedig â darparu cyngor yn y Gymraeg.

*“Dydw i ddim wedi cyhoeddi achos yn Gymraeg ers amser maith, gyda phlediadau Cymraeg a ffurflenni hawlio Cymraeg, oherwydd bron bod arnaf ormod o ofn i wneud hynny. Ni fydd staff y llys yn gwybod sut i ddelio ag ef, ni fydd yn cael ei gyfieithu oherwydd nid oes unrhyw rwymedigaeth i ddarparu cyfieithiad o'r ddogfen. Mae'r un peth yn wir gyda gweithrediadau priodasol. Maen nhw i gyd yn Bury St Edmunds felly dydw i ddim wedi cyhoeddi deiseb ysgariad yn Gymraeg ers peth amser. Roedd yn arfer bod yn iawn o dan yr hen system lle'r oedd gennych lysoedd sirol lleol yn ymdrin â phob math o achosion, felly ni allaf ddweud mewn gwirionedd a yw pethau wedi newid yn y 12 – 18 mis diwethaf, oherwydd nid wyf wedi cyhoeddi unrhyw beth. Rydw i ar fin cyhoeddi hawliad rhyddhad ariannol yn Gymraeg felly gawn ni weld sut aiff hynny."*

*Grŵp ffocws 4*

## Technoleg

Roedd cyfranwyr y grwpiau ffocws i raddau helaeth yn ystyried bod mwy o ddefnydd o offer ar-lein i oresgyn yr heriau sy’n gysylltiedig ag ymgysylltu â chleientiaid wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig yn gadarnhaol. Mae harneisio technoleg ar-lein wedi galluogi llawer o sefydliadau i sicrhau mwy o effeithlonrwydd mewnol, symleiddio’r broses o ddarparu gwasanaethau cyngor cyfreithiol, ac ymgysylltu â grwpiau a/neu ddemograffeg a allai fod wedi cael anawsterau fel arall wrth geisio cael cyngor.

Ar y llaw arall, esboniodd rhai cyfranogwyr, er gwaethaf manteision defnyddio offer ar-lein, y gallai materion hygyrchedd gan gynnwys darpariaeth band eang a diffyg llythrennedd digidol olygu bod rhai pobl yn cael eu hatal rhag cyrchu cyngor cyfreithiol. Rhoddodd un cyfranogwr

enghraifft o gleient y mae hi'n ei gynghori na chaniateir iddo gael ffôn clyfar ar hyn o bryd oherwydd telerau ei drwydded.

> *"…rydym yn ymwybodol iawn y bydd yna bobl nad yw gweithio o bell yn gweithio iddynt ac mae'n debyg na fyddwn yn gwybod pwy yw'r rheini. Ein bwriad yw cael nifer o gymorthfeydd ar waith eto, dim ond i gael rhywfaint o ymgysylltu wyneb yn wyneb."*
>
> *Grŵp ffocws 1*

Eglurodd un cyfranogwr fod y materion yn ei farn ef yn ehangach na hygyrchedd digidol yn unig.

> *"Mae pryderon ynghylch diffyg ymgysylltiad, gyda phobl yn peidio â mynychu gwrandawiadau, a phryderon am waith papur y llys yn gymhleth ac yn aneglur. Felly cyfuniad o allgáu digidol, teithio, dogfennau llys cymhleth, ar wahân i'r ffactorau lle mae pobl mewn anhrefn ac yn teimlo na allant fanteisio ar y cymorth hwnnw."*
>
> *Grŵp ffocws 1*

## Hygyrchedd cyfraith Cymru

Trafododd y cyfranogwyr yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio deall eu hawliau cyfreithiol a chael gafael ar ddulliau unioni, yn enwedig yn y cyd-destun datganoledig yng Nghymru. Rhannodd un cyfranogwr enghraifft o offeryn holi ac ateb ar-lein ar bwnc yn ymwneud â thai, a grëwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n gofyn i'r defnyddiwr a yw'n byw yng Nghymru neu yn Lloegr, ond dim ond yn cymhwyso'r gyfraith fel y mae'n berthnasol i Loegr, wedi hynny. Ni chyfeirir at gyfraith Cymru o gwbl. Eglurodd ymgyfreithiwr drosto'i hun â mater yn ymwneud â thai nad oedd yn ymwybodol o gwbl bod tai yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Gymru.

> *"Mae'n ymddangos bod pobl Cymru yn llai ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol nag yn Lloegr. Ategir hyn gan (Brifysgol) Bangor sydd wedi gwneud rhywfaint o waith ar hyn. . . sy'n dangos bod nifer yr achosion, yn enwedig yn fy maes i, sef adolygiad barnwrol, felly cyfraith gyhoeddus - y wybodaeth am eich hawliau cyfraith gyhoeddus i herio awdurdod lleol, llywodraeth . . . Mae llawer llai yn manteisio ar hyn yng Nghymru na'r nifer cyfatebol yn Lloegr, ac mae hynny hyd yn oed yn wir wrth addasu'r boblogaeth. Os nad yw rhywun hyd yn oed yn gwybod bod ganddynt hawliau cyfreithiol, ni fyddent byth yn dechrau poeni a allant gael mynediad iddo ai peidio."*
>
> *Grŵp ffocws 3*

*"Ar hyn o bryd rydym yn gweld nifer enfawr o hysbysiadau Adran 21 yn cael eu cyflwyno, mwy na dwbl y swm arferol. Mae’r gyfraith yn wahanol yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae llawer iawn o ddryswch ar ran landlordiaid. Rydym yn canfod bod mwyafrif yr hysbysiadau hynny'n annilys. Mae'n amlwg bod dryswch ynghylch cyfraith Cymru a Lloegr; diffyg gwerthfawrogiad o'r gwahaniaeth. Nid yw'r cyfryngau yn helpu trwy beidio â gwahaniaethu."*

*Grŵp ffocws 1*

Roedd llawer yn awyddus i bwysleisio nad yw’r heriau hyn yn unigryw i’r rhai sy’n ceisio cyngor – maent hefyd yn ymestyn i’r rhai sy’n darparu cyngor, gyda chyfranwyr yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â diffyg hyfforddiant a thestunau ymarferwyr ar gyfraith Cymru.

*"O ran pobl yn gallu deall eu hawliau cyfreithiol, mae'n anodd iawn yng Nghymru gyda chyfreithiau sydd wedi eu datganoli fel cyfraith tai, cyfraith plant. Nid oes gennym gymaint â hynny o destunau, llyfrau academaidd na llyfrau ymarferwyr a all ein helpu ni fel ymarferwyr i ddehongli'r gyfraith a chymhwyso'r gyfraith, felly mae'n anodd."*

*Grŵp ffocws 4*

## Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Roedd rhai cyfranogwyr yn awyddus i gydnabod y buddsoddiad mewn cyngor lles cymdeithasol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyflwyno LASPO, a’i effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, eglurodd y cyfranogwyr fod angen rhagor o gymorth er mwyn bodloni’r galw. Yn benodol, esboniodd rhai cyfranogwyr, er bod cyngor cynnar yn cael ei ariannu’n gymharol dda, mae mynediad at gyfiawnder yn fwy heriol i’r rhai a allai symud ymlaen i’r cam llys neu dribiwnlys.

*"Rydym yn ymwybodol iawn, o gymharu â Lloegr a'r Alban, ein bod yn cael cymorth cadarnhaol iawn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r categorïau tai, dyled, budd-daliadau lles, cyfraith cyflogaeth, ar lefel cyngor a chymorth, yn cael eu cefnogi'n gymharol dda yn ariannol. Ond rwy'n ymwybodol nad yw'r un peth yn wir ar gyfer pob categori – pethau fel mewnfudo a rhai achosion cyfraith teulu."*

*Grŵp ffocws 1*

Roedd nifer o gyfranwyr yn awyddus i bwysleisio, er bod cyllid gan Lywodraeth Cymru i’w groesawu, mai nifer fach o sefydliadau sy’n elwa ohono gan fwyaf. Roedd rhai cyfranwyr yn rhannu’r farn y dylai cyllid fod o fudd i nifer ehangach o sefydliadau, gyda’r manteision sy’n gysylltiedig â sector cynghori amrywiol yn cael eu nodi fel y prif fudd.

*". . . ers LASPO, mae practisau preifat ar y stryd fawr ac asiantaethau dielw gyda chyfreithwyr wedi crebachu. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd Llywodraeth Cymru, er clod iddi, wedi cydnabod y byddai LASPO yn effeithio ar Shelter Cymru, Cyngor ar Bopeth ac eraill, ac mae wedi eu cefnogi'n ariannol, sy'n dda ar un llaw. Ond mae gweddill y sector wedi cael ei adael ar ôl ac mae wedi golygu ein bod ni wedi dod yn or-ddibynnol ar Gyngor ar Bopeth. Er enghraifft, o ran y Gronfa Gynghori Sengl, sy'n fwy nag £8 miliwn – mae mwy na 98 y cant yn mynd i Gyngor ar Bopeth a Shelter Cymru. Mae'r arian yn cael ei sianelu i un cyfeiriad a dyna pam mae'r sector yn ei gyfanrwydd yn wan."*

*Grŵp ffocws 2*

*"Byddwn yn dweud mai'r brif feirniadaeth yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer sefydliadau llai, sefydliadau cymunedol . . . ac yn gyffredinol y ffaith bod gormod o alw ar lawer o wasanaethau. Pe bai'r gacen gyffredinol yn fwy, gallem helpu mwy o bobl. Mae'n ddadl barhaus ei fod yn faes lle gallwn gyfiawnhau mwy o gyllid."*

*Grŵp ffocws 1*

### Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Trafododd rhai o'r cyfranogwyr argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Yn benodol, trafodwyd pryderon a rannwyd ynghylch yr argymhelliad y dylid cael strategaeth ar gyllid at ddibenion cymorth cyfreithiol a darpariaeth cyngor y trydydd sector, o dan arweiniad corff annibynnol, i sicrhau nad oes bwlch yn y ddarpariaeth.

*"Byddai dau larwm yn canu. O ble mae'r arian yn dod yn hyn o beth? A fydd yn dod o'r gyllideb cyllid cyngor? Os felly, byddai'n well rhoi'r arian i'r sefydliadau ddarparu'r cyngor. Yn ail, a fyddai'n tueddu i sianelu arian i un cyfeiriad? Un o'r problemau yw os daw mwy o gyllid o dan gyfrifoldeb un sefydliad, boed yn annibynnol ai peidio, mae'n golygu bod llai o opsiynau i eraill. Os na fyddwch chi'n mynd trwy'r porth hwn, mae'n golygu bod llai o arian yn rhywle arall. . . Un o'r materion eraill yr wyf wedi codi'n gyson gyda Llywodraeth Cymru yw ei bod yn mynnu safon/nod ansawdd . . . Mae'n aml yn rhwystr i sefydliadau llai sy'n gwneud gwaith gwych wrth ddiwallu angen lleol. . . Ond os oes rhaid i chi neidio trwy rwystrau yn gynyddol, mae nod ansawdd yn anodd oherwydd ei fod yn cymryd llawer o amser ac yn ddrud. Mae'n ei gwneud hi'n anoddach i sefydliadau llai ac yn creu unffurfiaeth."*

*Grŵp ffocws 2*

*"Dyma'r broblem ynglŷn â pheidio â chael system gyfreithiol ddatganoledig . . . y drafferth yw bod cymorth cyfreithiol yn cael ei reoli gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llundain a does dim ots ganddyn nhw beth sy'n digwydd yng Nghymru a dweud y gwir. . . ac mewn gwirionedd, weithiau mae cymorth cyfreithiol yn cael ei wrthod ar sail nad yw'n berthnasol i Gymru, ond sy'n berthnasol i Loegr, ac mae'n rhaid i chi ddweud, "Na, mae gennych chi'r gyfraith anghywir fan'na." Ond yr hyn y mae hefyd yn ei olygu yw, os ydym yn ceisio cyflwyno cyfraith gymdeithasol, a bod Cymru ar adegau wedi cyflwyno cyfraith gymdeithasol eithaf gwahanol, cyfraith uchelgeisiol iawn... wel, gallwch gyflwyno cymaint o gyfraith ag y dymunwch, ond os na all pobl arfer eu hawliau o dan y gyfraith gyda chymorth cyfreithiol, does dim pwynt."*

*Grŵp ffocws 3*

## Gweithio hybrid

Roedd yr angen i ailfodelu arferion gwaith er mwyn galluogi sefydliadau i barhau i gynghori cleientiaid yn ystod y pandemig yn thema a ddaeth i’r amlwg yn ystod y rhan fwyaf o’r trafodaethau. Fe wnaeth cyfrannwr o un o’r 100 cwmni cyfreithiol gorau yn y DU roi cipolwg ar eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a dywedodd sefydliad cynghori trydydd sector fod y newidiadau yn gadarnhaol ar y cyfan.

*"We don't yet know where this will settle but the assumption is that in a post pandemic world, our work pattern will certainly be hybrid, with say a 2/3 day presence in the office, including Team Days to ensure regular face to face engagement. This will inevitably impact the size of office required, and the structure of it – increased "touch down" and interaction space, rather than just work stations."*

*Ymateb ysgrifenedig gan gyfrannwr i ymchwiliad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd i Wneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru.*

*"Mae'r newid i weithio gartref wedi gweithio'n weddol dda – rydym wedi gwneud newidiadau o ran capasiti teleffoni a gweinyddwyr er mwyn i bobl weithio gartref. Rydym wedi mabwysiadu ffordd o weithio ar sail tîm mwy rhanbarthol fel y gallem rannu gwaith â'n gilydd, pan oeddem yn gweithio wyneb yn wyneb i raddau helaeth o'r blaen . . . ar hyn o bryd rydyn ni bron yn gyfan gwbl yn ddarparwr o bell."*

*Grŵp ffocws 1*